

Ymyrraeth	Mannau Gwyrdd a Diogel			Gwyrdd	Cynnydd yn unol â'r targed ar hyn o bryd
				Oren	Cynnydd heb fwrw'r targed, ond yn gyraeddadwy o hyd
Yn arwain	Steve Morgan a Huw Jakeway	Cyfnod Adrodd	Ch 3 2021-22	Coch	Cynnydd ymhell o fwrw'r targed

Prif Gyflawniadau a Llwyddiannau
Mae'r Rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel yn parhau i weithio'n dda, gyda lefelau cryf o ymgysylltu a chydweithredu.
Creodd gweithdy rhwydwaith (Medi 2021) waith partneriaeth pellach, cyfleoedd i gydweithio a brwdfrydedd dros y weledigaeth hon ar draws nodau a rennir. Mae aelodaeth o'r rhwydwaith yn ehangu ac yn arallgyfeirio.
Cliriodd sawl partner dipio anghyfreithlon ar y 'Ffordd i Unman', sydd bellach yn cael ei alw'n 'Ffordd i Natur'. Mae cyfarfodydd partneriaeth parhaus a gwaith gan grŵp Cyfeillion Ffordd i Natur yn parhau i wella'r ardal ac atal tipio anghyfreithlon.
Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wrthi'n cynllunio ar hyn o bryd i ddatblygu ateb dros dro i ganiatáu mynediad gwell a chyflymach i'r afon o ganol y ddinas.
Teithio llesol mewn mannau gwyrdd: mae goleuadau lefel isel wedi'u gosod ym Mharc Tredegar ac mae'r llwybr teithio llesol newydd wedi'i gwblhau ar Ynys y Mwnci, Llyswry.
Mae sawl cais am gyllid wedi bod yn llwyddiannus mewn perthynas â Mannau Gwyrdd a Diogel, tua £500k: <ul style="list-style-type: none"> • 3 x Chronfa Rhwydweithiau Natur gan Gyngor Casnewydd ar gyfer bioamrywiaeth gwell ar Gwrs Golf Tredegar Gynt, Ynys y Mwnci, Hen Randir Parc Shaftesbury • Cronfa Adnewyddu Cymunedol y DU a Grant Chwalu Rhwystrau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol gan Maindee Unlimited ar gyfer astudiaeth ddichonoldeb a phrosiect Glasu Maendy gyda'n Gilydd. • Cynllun Cymunedau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (CCDGT) gan Buglife ar gyfer Prosiect Peillio. Nodwyd 4 safle i'w gwella ar gyfer pryfed peillio. • Cronfa Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru ar gyfer astudiaeth ddichonoldeb Seilwaith Gwyrdd Canol y Ddinas • Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer mapio cyfleoedd ôl-ffitio'r To Gwyrdd yng nghanol dinesig Casnewydd. Bwriedir cynnal y cyfarfod cychwynnol yn gynnar yn 2022.
Mae gwaith teledu cylch cyfyng ar gyfer Strydoedd Mwy Diogel 3 (parciau) ar y gweill ar gyfer Stow Hill, Belle Vue a Pharc y Capel.
Cynhaliwyd adolygiad cyflym o ymchwil i <i>Fynediad Cymunedau Amrywiol at Fannau Gwyrdd Lleol a'u Defnydd Ohonynt</i> , gydag argymhellion i'r Bwrdd a'r Rhwydwaith eu datblygu.

Mesuriadau Perfformiad Allweddol	Targed	Gwirioneddol	CMG
% / hectarau o fannau glas a gwyrdd hygyrch * Mynegai Mannau Gwyrdd Meysydd Chwarae Cymru	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau	
% Brigdwf coed * Brigdwf Wardiau'r DU WebMap i-Tree	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau	
Nifer o Safleoedd Pryfed Peillio CDC	20	48	Gwyrdd
Aelodau'r rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel	100	134	Gwyrdd
Nifer y bobl oedd yn bresennol yng ngweithdy diwethaf y Rhwydwaith	30	31	Gwyrdd
Agor cylchlythyr Rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel Dilynwy'r ar y cyfryngau cymdeithasol (Twitter) Olion twit ac ymweliadau â'r proffil	130	↑ 223	Gwyrdd
	150	↑ 113	Gwyrdd
	6,000	↑ 7,962	Gwyrdd
Prosiectau cydweithredol gweithredol sy'n cyflawni gweledigaeth y Rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel a Seilwaith Gwyrdd	15	↑ 20	Gwyrdd
Baneri Gwyrdd erbyn 2023: Cymuned Gwobr Lawn	8	3	Gwyrdd
	5	3	Gwyrdd
Nifer y cynlluniau a strategaethau y mae'r weledigaeth Gwyrdd a Diogel / SG wedi'i hymgorffori ynddynt	3	↑ 4	Gwyrdd

Cyfathrebu: 5^{ed} cylchlythyr i'w gyhoeddi ym mis Tachwedd 2021 yn rhannu arfer gorau ledled Casnewydd, hyrwyddo gwaith y Rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel , cyfleoedd i gydweithio, adroddiadau diweddaraf, adnoddau a chyllid. Gwybodaeth ad hoc sy'n cael ei hanfon i'r Rhwydwaith rhwng cylchlythyrau. Cynnydd a wnaed ar fersiwn 1 dudalen hawdd ei ddeall a/neu fideo o nodau Mannau Gwyrdd a Diogel.

Penodi ymgynghoriaeth ar gyfer astudiaeth ddichonoldeb Seilwaith Gwyrdd (SG) Canol y Ddinas, erbyn mis Mawrth 2022. Cyfarfod cychwynnol Rhagfyr 2021, ymweliadau safle i fod i gael eu cynnal yn gynnar yn 2022, disgwylir sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid ym mis Chwefror 2022. Nodi cyfleoedd ar gyfer SG, ymgysylltu â phartneriaid a busnesau i hyrwyddo gwerth a manteision lluosog SG, gyda'r nod bod SG yn rhan o gynlluniau creu lleoedd yn y dyfodol.




Mae Asesiad Seilwaith Gwyrdd (ASG) yn mynd rhagddo – cyfarfod cychwynnol ym mis Rhagfyr 2021, ymgynghorwyr i ddechrau gweithio ar y ASG. Dyddiad cwblhau erbyn mis Mawrth 2022.

Mae drafft cynllun Newid yn yr Hinsawdd CDC yn ymgorffori agweddau ar yr ymyriad hwn, ystyriaethau defnydd tir a tharged plannu coed. Ymgynghori ar y Cynllun drafft ym mis Rhagfyr 2021.

Mae is-grŵp Partneriaeth Casnewydd yn Un ar y Newid yn yr Hinsawdd wedi'i sefydlu i ddatblygu Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd ar gyfer Casnewydd gyfan. Cyfarfod cychwynnol Tachwedd 2021. Ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cael ei ddatblygu.

Mae sesiynau lles coetiroedd wedi'u cynllunio ar gyfer Betws, yng nghoedwig CNC, fydd yn cael eu cyflwyno gan Coed Lleol, mewn partneriaeth â Hyb Gogledd CDC.

Prif Risgiau / Rhwystrau i gynydd	Statws (U/C/I)	Camau Lliniaru / Y Cymorth Sydd ei Angen
Hen safle rhandir adfeiliedig Belle Vue ddim yn cael ei ddatblygu'n ofod cymunedol na'i wella ar gyfer natur.	Uchel	Camau dilynol gyda Bee The Change, gweithio gyda CDC a Bwrdd Mannau Gwyrdd a Diogel a'r Rhwydwaith am ddewis arall.
Diffyg gwybodaeth gan Fannau Gwyrdd a Diogel ar y gwaith sy'n cael ei wneud i atal camddefnyddio manau gwyrdd a gwelliannau diogelwch.	Canolig	Parhau i estyn allan a chyfrannu at gyfarfodydd is-grwpiau ymddygiad gwrthgymdeithasol Mae llawer o waith yn cael ei wneud gan bartneriaid, mae angen cymorth i gysylltu a bwydo'n ôl i'r ymyriad hwn.
Mynediad anghyfartal i fannau gwyrdd diogel o ansawdd da gerllaw ddim yn cael ei ddelio ag e.	Canolig	Archwilio cynlluniau peilot i ymgysylltu ag ardaloedd a chymunedau penodol, a'u cefnogi, gyda dull aml-asiantaethi rymuso cymryd perchnogaeth o fannau gwyrdd a'u gwella.

Lleihau'r canlynol (mewn man glas gwyrdd):	(Ch2 2020 vs Ch2 2021)			
	Achosion o dipio anghyfreithlon	64		62
Digwyddiadau tân bwriadol	15		20	Oren
Digwyddiadau eraill sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol	42		13	Gwyrdd

[Lles Cymru: Dangosyddion Cenedlaethol](#) (25, 26, 28, 29, 38, 40, 43, 44)

[Mynegai Lleoedd Ffyniannus - Casnewydd 2021](#) Lle ac Amgylchedd Cynaliadwyedd

[MALIC - Hafan \(llyw.cymru\)](#) Amgylchedd Ffisegol

Cynlluniau ar gyfer y chwarter nesaf

Parhau i gryfhau cysylltiadau â Chasnewydd Ddiogelach ac is-grwpiau

Cynllunio'r gweithdy Rhwydwaith nesaf ar gyfer Chwefror 2022.

Cael mynediad i'r map/cronfa ddata Seilwaith Gwyrdd yn gynnar yn 2022.

Archwilio cynlluniau peilot i ymgysylltu ag ardaloedd a chymunedau penodol, a'u cefnogi, gyda dull aml-asiantaethi rymuso cymryd perchnogaeth o fannau gwyrdd a'u gwella.

Gwneud cysylltiadau â Phrosiect Uwchgyllun Pillgwenlli.

Parhau i ddatblygu a gweithredu'r cynlluniau cyfathrebu.

Parhau i gryfhau cysylltiadau a chyfleoedd gyda Chymdeithasau Tai.

Hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli drwy'r Cylchlythyr.

Archwilio argymhellion y papur adolygu cyflym gyda'r bwrdd a'r Rhwydwaith.

Cysylltu â Phartneriaeth Grid Gwyrdd Gwent (PGGG) a dysgu ar y cyd â hwy.

Cefnogi'r sesiynau lles coetiroedd ym Metws.

Archwilio dewisiadau pellach ar gyfer hen safle rhandir adfeiliedig Belle Vue.